Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Talwrn**
**Talwrn**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**
**Dr Prydwen Elfed-Owens**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog, gymunedol o dan ofal Awdurdod Lleol (ALl) Môn yw Ysgol Talwrn. Mae wedi ei lleoli ym mhentref bychan Talwrn, ychydig filltiroedd y tu allan i dref Llangefni yng nghanol Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i chwmpas. Yn ôl yr ysgol, mae'r ardal yn un gymharol ffyniannus.

Mae 39 o ddisgyblion a phlant rhwng 4 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae dosbarth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol Un ac un dosbarth ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed.

Mae gan 10% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Mae chwech [ 15%] o'r disgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY); nid yw unrhyw ddisgybl yn destun datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae 100% o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Nid yw unrhyw ddisgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes yr un disgybl o dan ofal Awdurdod Unedig.

Daw tua 51% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid yw 36% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ond maent yn siarad Cymraeg er nid yn rhugl. Mae 13% yn dod o gartrefi di-Gymraeg ac heb fedru siarad Cymraeg. Mae pob disgybl yn dilyn cwrs Cymraeg Mamiaith. Defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng addysgu hyd at Blwyddyn 2 ac yn dilyn hynny defnyddir y Gymraeg a Saesneg yn gyfryngau addysgu.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Mehefin 2005. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2006.

Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Talwrn yw £4,159 sy'n cymharu gydag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2685 ar gyfer ysgolion cynradd ym Môn. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 21ain uchaf o'r 52 ysgol gynradd ym Môn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau cyrhaeddiad yn dda ac asesiadau diwedd cyfnodau allweddol yn gyson uwch na'r rhai mewn ysgolion tebyg;
- safon a datblygiad yr iaith lafar Gymraeg yn rhagorol yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1;
- safon llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda yn y ddau gyfnod allweddol;
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- partneriaid yr ysgol yn ei chynorthwyo i ddarparu profiadau sy'n hybu safonau'n arwyddocaol;
- presenoldeb yn dda iawn;
- y disgyblion yn mwynhau ystod dda o weithgareddau diddorol;
- cyfle cyfartal i bob disgybl.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- traddodiad o gynnal safonau da dros gyfnod o amser;
- y staff yn ymroddgar;
- y rhieni a'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol;
- cefnogaeth y gymuned leol i fentrau a gweithgareddau'r ysgol, ac
- ethos presennol yr ysgol yn cefnogi agweddau positif tuag at ddysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 gynnal a gwella ymhellach safonau disgyblion o bob oed a gallu;

A2 barhau i anelu at ragoriaeth ym mhob maes;

A3 gysoni a gwella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys gweithredu egwyddorion asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol a sicrhau gweithgareddau chwarae mwy bwriadus yn y cyfnod sylfaen;

A4 gofalu bod yr holl staff yn cael eu cynnwys yn llawn yn rheolaeth yr ysgol;

A5 sicrhau amser digyswllt er mwyn i'r pennaeth gael cyfle i ffurfioli trefniadaeth yr ysgol;

A6 ddatblygu rôl monitro a herio'r llywodraethwyr, a

A7 rhoi sylw ar fyrder i ddiogelu'r mynediad yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safon cyrhaeddiad y disgyblion yn Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 wedi parhau yn uchel dros y tair blynedd diwethaf ac ar wahân i ambell blentyn oedd ag ADY, mae canlyniadau'r ysgol yn dangos yn gyson eu bod yn gwneud yn well nag ysgolion o'r un teulu, ac yn well na chyfartaledd y sir a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae canlyniadau CA1 wedi bod yn y chwarteli* uchaf yn 2008 a 2010. Yn 2009, roedd yr ysgol yn y chwarteli isaf oherwydd effaith disgyblion ADY ar y canrannau mewn mintai bychan. Mae'r canlyniadau yn cymharu'n well na ffigurau'r teulu, y sir, a Chymru.

Yn llafar Cymraeg, mae traean o'r disgyblion yn ennill lefel 3 yn aml. Yn 2010, llwyddodd 100% i ennill lefel 3 yn llafar. Yn flynyddol, mae'r holl disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg a gwyddoniaeth, a thraean yn cyrraedd lefel 3 mewn Cymraeg llafar.

Mae canlyniadau CA2 wedi bod yn y chwarteli uchaf yn 2008, 2009 a 2010. Yn 2008, roedd yr ysgol yn yr ail chwartel oherwydd effaith un ddisgybl ADY ar y canrannau mewn mintai bychan .

Yn flynyddol, mae o leiaf traean o'r disgyblion yn cyrraedd lefel 5 yn y Gymraeg Saesneg a mathemateg. Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer am wyddoniaeth yn 2008 a 2009. Yn 2010, mewn gwyddoniaeth, cyrhaeddodd 100% o'r disgyblion lefel 4.

Mae ansawdd y canlyniadau rhwng 2008 a 2010 yn golygu bod canran y disgyblion sydd yn cyrraedd y dangosydd pynciau craidd (DPC) wedi aros yn gyson ac wedi bod yn uwch na chanran y teulu a chyfartaledd Cymru.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth safonau rhwng bechgyn a merched.
Nid oes gwahaniaeth amlwg yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y dosbarth.

Mae bron bob un o'r disgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da mewn iaith, cyfathrebu a rhif, ac yn aml mae'r cynnydd yn ddigon i godi canran y disgyblion sy'n cyrraedd y safon disgwyledig.

Mae'r hwyrddyfodiaid yn gwneud cynnydd da yn enwedig mewn iaith.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd un lefel yn uwch na'r lefel disgwyliedig erbyn diwedd y ddau gyfnod allweddol yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg ychydig yn uwch nag yn yr ysgolion cyfatebol.

Mae bron bob un ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Yn ôl canlyniadau profion darllen, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen a B2 yn gwneud cynnydd rhagorol yn y Gymraeg yn enwedig ar lafar.

Mae safonau darllen yn y Gymraeg a’r Saesneg yn gyson dda.  Mae bron bob un o’r disgyblion yn darllen ar goedd yn dda yn ôl eu gallu.  Mae safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn dda ac mae safonau llafar yn y Gymraeg yn arbennig o dda.

Mae safonau rhifedd yn dda drwy’r ysgol.

**Lles:  Da**

Mae’r ysgol yn gymuned deuluol, a moesgar ac mae bron bob un o’r disgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at agweddau gwahanol o’u gwaith.  Mae ymddygiad bron bob un o’r disgyblion yn dda yn ystod y gwersi ac yn ystod amser egwyl.  Cynigir cynhaliaeth effeithiol a chynnil i’r unigolion sydd ei angen, gan staff cefnogi sy’n cydweithio’n effeithiol gyda’r athrawon.  Mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.  Mae gofal cymuned yr ysgol amdanynt yn dda ac mae medrau cymdeithasol bron bob disgybl o fewn yr ysgol yn dda iawn.  Mae ganddynt falchder yn eu hysgol.  Mae bron un o’r disgyblion o’r farn fod yr ysgol yn ymateb yn effeithiol pan fydd plentyn yn anhapus.

Mae’r ysgol yn gweithio tuag at sicrhau cyfraniad llawn pob disgybl yn eu dysgu.

Mae llawer yn dod yn ddysgwyr mwy annibynnol, gan ddechrau gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain a chymryd rhan wrth gyllunio rhai o’u gweithgareddau.  Mae gan y rhan fwyaf o’r disgyblion agweddau cadarnhaol at addysg iechyd a bwyta’n iach.  Maent yn hapus yn dod i’r ysgol gan eu bod yn derbyn gofal, cefnogaeth a her.  Mae canrannau presenoldeb yr ysgol yn dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio gyda gofynion statudol Cwricwlwm 2008, Addysg Grefyddol a'r Cyfnod Sylfaen.  Mae’r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu.  Darpara dasgau penodol sydd wedi eu cynllunio'n dda.  Mae systemau cynllunio’r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd i’r holl ddisgyblion brofi amrediad da o weithgareddau amrywiol.  Mae llythrennedd a chyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cael lle amlwg yn y cynllunio ac yng ngweithgareddau’r dosbarth.

Yn llawer o’r gwersi, mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion.  Mae bron bob un o'r plant yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol Un yn gwneud cynnydd da iawn yn llafar yn y Gymraeg.  Mae athrawon CA2 yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da.

Mae addysg ar gyfer cynaladwyedd yn dangos elfennau o ragoriaeth oherwydd y berthynas weithredol glos gyda'r gymuned leol trwy brosiectau amgylcheddol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth o ddinasyddiaeth trwy astudio bywyd yn Lesotho a Kenya.

**Addysgu: Da**

Ar y cyfan, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dosbarth. Mae'r briodas rhwng adnabyddiaeth yr athrawon o anghenion amrywiol y plant ynghyd â'u dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r cyfnod sylfaen yn effeithiol. Er hynny, nid oes ffocws digonol i'r weithgareddau chwarae bob amser.

Yn y gwersi gorau, mae cyflymdra'r dysgu yn addas, y tasgau'n ddiddorol a'r cwestiynu'n dreiddgar. Yn ddieithriad mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un sy'n annog parch a chwrteisi. Ar y cyfan, mae disgwyliadau'r athrawon a'r disgyblion yn uchel ac fel arfer maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol.

Mae ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar o fewn y dosbarthiadau, lle mae pob unigolyn yn cael ei barchu. Gwelir rhai enghreifftiau o farcio sy'n ymateb yn adeiladol i waith disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu eu gwaith ysgrifenedig. Er hynny, nid yw'r arfer hon yn gyson. Mae rhai athrawon yn galluogi'r disgyblion i adnabod targedau ar gyfer gwella ac yn eu cofnodi. Nid yw'r drefn hon yn gyson ar draws yr ysgol. Nid oes cysondeb ychwaith mewn strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol sustemau asesu effeithiol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r wybodaeth a gesglir o'r drefn hon. Mae sustem dracio yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol ac i sefydlu grwpiau targed.

Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn y mwyafrif o wersi. Mae dealltwriaeth yr athrawon o'r egwyddorion yn dechrau gwreiddio.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles y disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion i fynegi barn ac i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd yn ddigonol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol ei holl ddisgyblion yn dda trwy feithrin gwerthoedd megis tegwch a pharch ymhob gweithgarwch. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda. Mae'r cyfleoedd a drefnir i ddatblygu gwerthfawrogiad y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn dda.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod o wasanaethau arbenigol er mwyn ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Enghraifft o hyn yw’r gwahoddiad i'r Heddlu ymweld a'r ysgol i ddysgu'r plant am diogelwch.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant. Mae’r rhain yn wybyddus i’r holl staff a gŵyr y disgyblion at bwy i droi mewn cyfyngder.

Mae’r cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar sy’n darparu amgylchedd cefnogol i bob disgybl. Mae pob disgybl yn cael ei annog i ymgymryd yn llawn â phob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy’n meithrin dealltwriaeth y disgyblion o’r byd ehangach. Mae’r ysgol yn delio yn dda ag achosion o ymddygiad heriol.

Ar y cyfan, mae'r adnoddau dysgu ac addysgu o safon uchel ac yn diwallu anghenion y cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithlon a phwrpasol ohonynt. Mae’r ystafelloedd dosbarth a’r rhodfeydd yn lliwgar, yn symbylus ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus.

Nid oes gan yr ysgol gae chwarae ac felly defnyddir cae chwarae'r pentref. Er bod hwn yn adnodd ardderchog cyfyngir ar ei ddefnyddioldeb oherwydd ei bellter a'r angen i deithio yno. Mae neuadd yr ysgol yn fach ond caiff ei ddefnyddio'n llawn. Mae'r ardal tu allan, gan gynnwys yr ardd a'r goedwig fechan, yn adnoddau gwerthfawr i gyfoethogi'r cwricwlwm. Serch hynny, mae cyflwr y buarth a man chwarae allanol y cyfnod sylfaen yn afler.

Mae’r ysgol wedi ei lleoli mewn man tawel a diogel yr olwg. Er hynny, mae’r hi’n agored iawn ei mynediad o ran giatiau a drysau niferus sydd ddim bob amser ar gau. Mae hyn yn annerbyniol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth o ran sicrhau safonau yn dda. Mae ganddi weledigaeth glir o ran gwerthoedd ac amcanion yr ysgol. Serch hynny, dim ond hanner diwrnod yr wythnos di-gyswllt o’r dosbarth sydd ganddi ar hyn o bryd ar gyfer y gwaith o arwain yr ysgol. Nid yw hyn yn ddigon i sicrhau tegwch i’r holl ofynion sydd arni fel pennaeth.

Llwydda’r staff i greu ethos cadarnhaol ac i sicrhau enw da’r ysgol.

Mae'r athrawon yn rhannu'r cyfrifoldebau am bynciau a meysydd.  Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i Reoli Perfformiad.  Er bod cyfleoedd amrywiol i bawb ennill medrau newydd ac ymgyfarwyddo â gofynion newydd, ni roddir sylw digonol i gymhwyso a defnyddio'r wybodaeth a enillir yn llawn.  Rhoddir sylw, oddi mewn i gyfyngderau amser, i'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn a chydweithiant yn agos gyda'r pennaeth i osod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol.  Serch hynny, dal i ddatblygu mae eu gallu i fonitro'n uniongyrchol yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.  Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n dda fel cyfeillion beirniadol ac ar adegau, yn herio penderfyniadau.

Mae llais y disgyblion yn  dechrau dylanwadu  ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae trefn hunanarfarnu syml ac ystwyth yr ysgol yn sylfaen gadarn i welliant pellach . Defnyddia'r staff  ystod dda o dystiolaeth fel rhan o'r broses.  Er hynny, nid yw rôl a chyfraniad yr holl staff i'r broses yn glir.  Rhoddir ystyriaeth ddigonol i farn y staff a'r disgyblion.  Mae gwrando ar farn rhieni yn ddatblygiad diweddar.  Mae barnau'r cyfranddeiliaid yn gymorth i bennu cryfderau a meysydd ar gyfer gwella ac mae hyn yn dechrau cael effaith llesol ar ddysgu'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drosolwg tair blynedd o'r meysydd y mae wedi'u nodi ar gyfer gwella. Caiff hyn ei adolygu'n flynyddol.  Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn nodi'n gryno y prif flaenoriaethau ar gyfer gwella, ac mae cost, amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth wedi'u nodi'n glir.  Bu i'r ysgol gynnal ansawdd da canlyniadau asesiadau diwedd cyfnodau allweddol dros nifer o flynyddoedd.

Mae baich addysgu trwm y pennaeth yn golygu ei bod hi'n anodd iddi oruchwylio gweithrediad pob blaenoriaeth er mwyn sicrhau rhagoriaeth.

Mae'r ysgol yn dechrau manteisio ar gysylltiadau gyda dwy ysgol gynradd leol i rannu profiadau a chyfnewid arferion.  Mae'r trefniadau hyn yn dechrau cyfrannu at gryfhau'r diwylliant o gydweithio rhwng yr ysgolion ar faterion proffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol hynod o ddefnyddiol. Sefydlwyd perthynas gref iawn gyda'r rhieni.  Mae rhieni a chyfeillion yr ysgol yn cyfrannu i weithgareddau chwaraeon a darllen.  Mae perthynas glos iawn wedi ei sefydlu gyda'r gymuned leol hefyd, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg a ddarperir.  Yn ogystal, sefydlwyd partneriaethau rhagorol gyda diwydiant sy'n cyfrannu'n arwyddocaol at agweddau o'r cwricwlwm a safonau mewn rhai medrau a phynciau.  Cefnogir yr ysgol yn dda gan wasanaeth addysg yr ALl.  Mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion yn dda.  Caiff dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill ei hyrwyddo'n dda trwy gysylltiadau rhyngwladol gweithredol,  trwy astudio gwledydd eraill a thrwy gysylltiadau eraill oddi mewn i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion cynradd ac ysgol uwchradd yr ardal i safoni asesiadau. Rhoddwyd cychwyn da hefyd i weithgareddau cymedroli gwaith disgyblion yn CA2 a CA3. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol adnoddau digonol. Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn gymwys i addysgu holl agweddau'r cwricwlwm. Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol. Mae rôl y staff cefnogi yn effeithiol drwy'r ysgol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw arian wrth gefn nac unrhyw ddyled ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

O fewn y cyllid a ddarperir ar ei chyfer, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian oherwydd y deilliannau da mewn asesiadau allanol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 21 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Dywed bron bob un ohonynt eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dywedodd y rhan fwyaf bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio. Maent i bron i gyd yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywed y rhan fwyaf bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a dywed bron bob un bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un yn dweud eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae bron bob un yn dweud bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Dywed pob un hefyd eu bod yn gwybod beth i'w wneud a chyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Dywed y rhan fwyaf bod ganddynt ddigon o lyfrau a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae llawer yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Cwblhaodd 12 o rieni / gofalwyr yr holiadur. Mae'r holl rieni / gofalwyr yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Dywedant bod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod yn ddiogel yno. Dywedant oll hefyd bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Dywedant oll bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a chyda pharch a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Dywedant hefyd bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol a bod yr ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent oll yn credu bod gan yr ysgol amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Yn ogystal, dywedodd bron bob un bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Dywed bron bob un o'r rhieni eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Dywed bron bob un bod yr ysgol yn paratoi eu plentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae bron pob rhiant hefyd yn dweud bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Richard Parry Hughes | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyneth Môn Hughes | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |